CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**26.01.23**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Caffi'r Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; JOJ; RY; EY;IW;LLMH;DP EO; AR;GW<br><br>**Ymddiheuriadau:** RJ;TAJ<br><br>**Yn mynychu:** SWR; Parch Jenny Clark |
| | Croesawyd Parch Jenny Clark, Ficer Bro Eleth i'r cyfarfod.<br><br>Eglurodd Parch Clark ei bod yn ei swydd ers Mehefin 2022 a bod ei gofalaeth dros ardaloedd Llannerchymedd Amlwch a Moelfre. Roedd yn gweinyddu cyn hyny yn Swydd Efrog.<br><br>Nododd Parch Jenny bod y sesiynau 'Messy Church' cylch Amlwch wedi ail ddechrau yn Caffi'r Stesion ar y cyd hefo Deb Stammers Arweinydd Bedyddwyr Gogledd Môn a bod croeso i bawb.<br><br>Trafodwyd y pwyntiau canlynol oedd yn bryder i'r CC.<br><br>• Llwybrau'r Fynwent – nodwyd bod y CC yn torri gwair mynwent Santes Fair ers blynyddoedd ac am ddim i'r Eglwys yng Nghymru ond bod pryder cynyddol am gyflwr y llwybrau a'r perygl i rhywun frifo. Cytunodd Parch Jenny bod angen sicrhau diogelwch ond bod cyllideb yn brin. Awgrymodd trefnu diwrnod clirio/twtio gwirfoddol. Cytunwyd i Parch Jenny a GW drefnu ymweliad i adnabod beth sydd angen sylw yn y man cyntaf.<br><br>• Cloch yr Eglwys – cytunwyd i GW amlinellu'r broblem yn ystod ei ymweliad safle.<br><br>• Tocio Coed ac Eiddew – eto cytunwyd i adnabod be sydd angen sylw yn ystod ymweliad safle ac i Parch Jenny a'r Clerc drafod |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | grantiau posib i wneud y gwaith.<br>Diolchwyd i'r Parch Jenny am fynychu. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb |
| **3** | **Cofnodion 24/22/22**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 24 Tachwedd 22 fel rhai cywir (JAJ/DP)<br>b) Materion yn Codi<br>• Ffioedd y Fynwent Gyhoeddus<br>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'r Clerc holi Cynghorau Tref a Chymunedau eraill am eu trefniadau er mwyn cymharu'n briodol ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf. Cytunodd LLM i holi am y broses Gorchymun Pryniant Gorfodol (CPO) er mwyn dechrau trafodaeth a ymestyn y Fynwent Gyhoeddus .<br>Cytunwyd i adolygu Polisi'r Fynwent i nodi dylid cyflwyno pob cais am bryniant i'r pwyllgor hwn cyn i'r Clerc weithredu. Ychwanegu hefyd bydd ffi gostyngedig i'r rhai sydd a chyswllt hefo Llannerchymedd. Cadarnhau'r adolygiad yn y cyfarfod nesaf.<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu ferswin 26.01.23<br>Nodwyd y canlynol:<br>Croesfan Stryd Fawr – LLM wedi trefnu cyfarfod i drafod Cynllun Gweithredu Priffyrdd ond bu rhaid gohirio oherwydd galwadau gwaith brys. Bydd ail-drefnu.<br>Diolchwyd yn fawr i DP am ei waith yn torri gwrychyn Eglwys Coedana |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br>**JAJ –** holodd os oedd unrhyw wybodaeth am finiau yn cael eu dwyn yn y pentref, ni oedd gwybodaeth am hyn i law.<br>- Nododd bryder eto am gyflwr ffordd Sarn Fadog, Coedana a Carmel hyd at fferm Ty Cores. DP yn nodi bod ffordd fawr lawr i'r pentref angen sylw hefyd. Cytunwyd i nodi eto o fewn Cynllun Gweithredu Priffyrdd.<br>- Holodd am gyfarpar i allogi gweld papurau cyfarfod yn hwylus. Clerc i holi am opsiynau<br>**DAW** – holodd os oedd nos Iau ola'r mis yn dal yn gyfleus i bawb. Ni fu unrhyw sylwad amgen. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **AR** – nododd bod parcio yn Stryd Tudor yn gynyddol broblemus gydag un tŷ hefo 9 car ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai'r anodd i weithredu camerâu cylch cyfyng oherwydd cyfyngiadau statudol. Cytunwyd i DAW a'r Clerc weithredu arolwg ar gamerâu cyfredol CCLlan h.y. - archwilio Stesion, gwirio yswiriant ac archebu arwyddion priodol<br><br>**LLMH** - adroddodd LlM bod sioc enbyd o ddeall bod ffatri Two Sisters yn Llangefni yn cau. Nododd bod cyfarfodydd brys ar y gweill i geisio adfer sefyllfa anodd iawn. Adroddodd hefyd bod Pont y Borth yn ail-agor yn fuan ond dros dro gan fod rhagor o waith adfer i'w gwblhau.<br><br>**JOJ** -cais i law gan Garmel am gymorth tuag at hyfforddiant 'de-fib'. Cytunwyd i'r Clerc cadarnhau costau gyda Richard Jones yn y man cyntaf |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Tachwedd**<br>MSI Alarms – 110.40<br>Caffi'r Stesion – talu am fwyd i'r plant gweithgaredd Dolig 100.00<br>RPO Wiliams – gosod arwyddion croeso X 5 Llan a Carmel 1400.00<br>Noddi Twll Cystadleuaeth Gollf LLan 50.00<br>Rhys Williams – cytundeb torri gwair 2021/2 3031.00<br>Scottish Power – Golau Dolig 108.63<br>Scottish Power – CPD 173.04<br>Expose Media – arwydd parcio a Hysbysfwrdd 450.00<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Dragon Fire – gwirio cyfarpar tân y Stesion 99.90<br>Cyflog Clerc Ionawr & 1 taliad ZOOM 506.28<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £14,331.56<br>Cyfrif Cadw: £1438.42<br><br>**Gosod Praesept ag Adolygu'r Gyllideb**<br>Treuliwyd cryn amser yn trafod adolygu'r gyllideb a nodwyd y gwariant hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022. Cytunwyd ar fân addasiadau ac i'r Clerc lunio taenlen fwy effeithiol gydag Eryl Williams i'w chyflwyno ar e-bost er cymeradwyaeth bellach.<br><br>Trafodwyd gosod y Prasept ar gyfer 2023/24. Yn dilyn trafodaeth cynigiodd AR godi'r praesept 5% ac fe eiliwyd gan GW. Cyflwynwyd gwelliant gan JAJ i godi 10% a gan na chafwyd eilydd tynnodd JAJ ei gynnig yn ôl. Cytunwyd yn unfrydol i godi'r praesept 5% yn unol â chodiad CSYM. Clerc i weithredu'r gwaith papur gyda TAJ o fewn terfyn amser CSYM ym mis Chwefror.<br><br>Cytunwyd hefyd i gynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Llawn ddechrau Rhagfyr er mwyn cynnal trafodaethu mewn da bryd ac osgoi amserlenni cyflwyno tyn |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br>Dim i law |
| **7.** | **Materion Safleoedd**<br>• **Cae Gofeb/Ysgol Haearn –** cais gan JAJ i archebu cerflun ychwanegol i Cae Gofeb i gynrychioli'r Llynges - cytunwyd yn unfrydol, Clerc i weithredu.<br><br>• **Unedau Tan y Foel –** dim i law**.** |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall -** Dim i law.<br>*Daeth y cyfarfod i ben am 9.50* |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383